**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Milfeddygon a Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Milfeddygon a Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 eu gosod gerbron pwyllgorau sifftio Dau Dŷ'r Senedd ar 13 Rhagfyr 2018. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma:

https://beta.parliament.uk/work-packages/wn36fV6A

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan**

3. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, ynghyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, fel y darperir ar gyfer hynny gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2019. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau o ran gweithredadwyedd.

4. Mae'r OS yn gwneud diwygiadau i:
   - Deddf Lles Anifeiliaid 2006

**Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Mae adran 29 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gwneud darpariaeth i arolygydd gynnal arolygiad er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â rheoliadau o dan adran 12 o'r Ddeddf (rheoliadau i hyrwyddo lles) sy'n gweithredu un o rwymedigaethau'r UE. Mae'r diwygiadau yn gwneud cywiriadau fel y bo modd gweithredu'r gyfraith ar ôl y dyddiad ymadael trwy gyfeirio at "are retained EU law" yn lle'r geiriad presennol, "implement an EU obligation".

6. Mae'r newidiadau a nodir uchod yn ymwneud â swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a allai fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

7. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw bynciau ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cadw'n ôl yn benodol ar gyfer Senedd y DU yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r amgylchedd.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

8. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr i gywiro'r cyfeiriad dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

19 Rhagfyr 2018